# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y Y CYNGOR

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD IAU, 22 MEHEFIN 2017 AM 5.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | P M Black | J E Burtonshaw |
| M C Child | S E Crouch | J P Curtice |
| N J Davies | A M Day | P Downing |
| C R Doyle | V M Evans | C R Evans |
| W Evans | E W Fitzgerald | S J Gallagher |
| L S Gibbard | F M Gordon | K M Griffiths |
| J A Hale | D W Helliwell | T J Hennegan |
| B Hopkins | D H Hopkins | O G James |
| L James | Y V Jardine | M H Jones |
| S M Jones | P Jones | L R Jones |
| E J King | E T Kirchner | M A Langstone |
| M B Lewis | W G Lewis | A S Lewis |
| C E Lloyd | P Lloyd | I E Mann |
| P N May | H M Morris | D Phillips |
| C L Philpott | S Pritchard | A Pugh |
| J A Raynor | C Richards | K M Roberts |
| B J Rowlands | M Sherwood | P B Smith |
| R V Smith | A H Stevens | R C Stewart |
| D G Sullivan | M Sykes | G J Tanner |
| L G Thomas | W G Thomas | M Thomas |
| L J Tyler-Lloyd | G D Walker | L V Walton |
| T M White | | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M Durke, R Francis-Davies, C A Holley, P R Hood-Williams, J W Jones a/ac P M Matthews

17. **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Rhoddodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busnes gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib y gallai cynghorwyr a swyddogion eu cael mewn eitemau ar yr agenda.

Gwnaeth Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd atgoffa cynghorwyr a swyddogion y dylid ond llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" os oes gan y cynghorydd/swyddog fudd i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorwyr T J Hennegan a G J Tanner fudd personol yng Nghofnod 24 "Adnewyddu Tai'r Sector Preifat ac Addasiadau i'r Anabl: Polisi i ddarparu cymorth 2017-22;

2) Datganodd y Cynghorwyr C Anderson, P M Black, J E Burtonshaw, M C Child, S E Crouch, J P Curtice, N J Davies, A M Day, P Downing, V M Evans, W Evans, E W Fitzgerald, F M Gordon, J A Hale, T J Hennegan, B Hopkins, L James, Y V Jardine, M H Jones, S M Jones , E J King, E T Kirchner, A S Lewis, M B Lewis, C E Lloyd, P Lloyd, P N May, D Phillips, C L Philpott, J A Raynor, C Richards, P B Smith, R V Smith, R C Stewart, D G Sullivan, G J Tanner, D W W Thomas, L G Thomas, M Thomas, L J Tyler-Lloyd, G D Walker, L V Walton a T M White fudd personol yng Nghofnod 25 "Lwfansau a Threuliau Cynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig 2016-2017";

3) Datganodd y Cynghorwyr P M Black, M C Child, N J Davies, M Day, P Downing, V M Evans, E W Fitzgerald, F M Gordon, B Hopkins, L James, O G James, Y V Jardine, L R Jones, M H Jones, S M Jones, E T Kirchner, I E Mann, P N May, C L Philpott, S Pritchard, C Richards, K M Roberts, B J Rowlands, P B Smith, R V Smith, A H Stevens, R C Stewart, D G Sullivan, G J Tanner, L G Thomas, L J Tyler-Lloyd a T M White fudd personol yng Nghofnod 26 "Lwfansau a Threuliau Cynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig 2016-2017".

## 18. COFNODION.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2017 yn amodol ar dudalen 27, aelodaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei diwygio a thynnu Jane Harries;

2) Cyfarfod seremonïol y cyngor a gynhaliwyd ar 26 Mai 2017.

## 19. YMATEBION YSGRIFENEDIG I GWESTIYNAU A OFYNNWYD YNG NGHYFARFOD CYFFREDINOL DIWETHAF Y CYNGOR.

Ni chafwyd ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng nghyfarfod cyffredinol diwethaf y cyngor.

## 20. CYHOEDDIADAU'R AELOD LLYWYDDOL.

### 1) Cydymdeimladau

### a) Ymosodiadau terfysgol a digwyddiadau trychinebus

Cyfeiriodd yr Aelod Llywyddol â thristwch mawr at yr ymosodiadau terfysgol ar Bont Llundain, Borough Market ar 3 Mehefin a gerllaw Mosg Finsbury Park ar 18 Mehefin 2017, ynghyd â'r tân trychinebus a difethol yn Nhŵr Grenfell, Llundain a'r Digwyddiad Tanc yng Nghastellmartin, Sir Benfro ar 14 Mehefin 2017.

Roedd baneri y tu allan i adeiladau Canolfan Ddinesig y cyngor wedi eu hanner-ostwng a chynhaliwyd munud o dawelwch.

Safodd pawb i ddangos cydymdeimlad a pharch.

## 2) Chelbie Williams, Ysgol Gyfun Pentrehafod - Ysgoloriaeth Virgin i'r India

Dywedodd yr Aelod Llywyddol mai Chelbie Williams o Ysgol Gyfun Pentrehafod yw'r ferch gyntaf o Gymru i gael ei dewis am ysgoloriaeth nodedig a fydd yn ei gweld hi'n teithio i'r India i helpu i adeiladu ysgolion i blant sy'n byw mewn tlodi. Mae'n un o 30 o fyfyrwyr ledled y DU a ddewiswyd ar gyfer yr ysgoloriaeth i'r India.

Yr hyn sy'n gwneud ei llwyddiannau'n fwy arbennig byth yw'r ffaith y cafodd ei symud i gynllun Cwricwlwm Amgen Pentrehafod (Pace) ar ôl dioddef o anawsterau emosiynol, gan gynnwys hunan-barch isel, dair blynedd yn ôl. Mae'r cynllun Pace yn helpu plant diamddiffyn sydd mewn perygl o gael eu gwahardd ddychwelyd i'r llwybr cyffredin.

Llongyfarchodd yr Aelod Llywyddol Chelbie ar ei llwyddiant nodedig.

## 3) Gwobr Perfformiad Rhagorol Grŵp Diogelwch Galwedigaethol De-orllewin Cymru (SWWOSG)

Gwnaeth yr Aelod Llywyddol longyfarch y Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch, Lles a Rheoli Argyfwng Corfforaethol am ennill gwobr Grŵp Diogelwch Galwedigaethol De-orllewin Cymru am berfformiad rhagorol wrth leihau damweiniau, hyfforddiant iechyd a diogelwch a'u gwaith ar drawsnewid diwylliannol a gwella iechyd a lles.

Cyflwynwyd y wobr i Craig Gimblett, Tracey Williams, Katja Davies a Sarah Owens.

## 4) Gwobr Blatinwm y Safon Iechyd Corfforaethol (CHS)

Y cyngor yw ail awdurdod lleol yng Nghymru i ennill Gwobr Blatinwm y Safon Iechyd Corfforaethol am ei ymroddiad at fynd y tu hwnt i'w ddyletswyddau corfforaethol a chymdeithasol drwy wneud gwir wahaniaeth wrth wella gwasanaethau a chefnogaeth i ein cymunedau a'n staff.

Y Safon Iechyd Corfforaethol yw marc safon Llywodraeth Cymru o ran hyrwyddo iechyd corfforaethol yng Nghymru ers 2005. Er bod safonau eraill yn canolbwyntio ar staff yn unig, dim ond y sawl sy'n gallu dangos sut maent yn llwyddo i gyflawni rhagoriaeth a mwy ar draws chwe maen prawf craidd

wrth gefnogi iechyd a lles preswylwyr, eu staff eu hunain a staff cyflogwyr eraill sy'n cael eu gwobrwyo â'r safon blatinwm.

Cafodd Gwasanaeth Datblygu Gwaith Cyngor Abertawe, sy'n dathlu ei ddegfed pen-blwydd eleni, ei defnyddio fel ein hastudiaeth achos, gan ddangos sut caiff oedolion ag anableddau dysgu eu cefnogi i ddatblygu sgiliau gwaith y gallant yna eu defnyddio i gefnogi cymunedau'r ddinas.

Cafodd pob un o saith tîm project y gwasanaeth eu cynnwys yn y dystiolaeth a gyflwynwyd, gan amrywio o'r timau NEAT adnabyddus i wasanaethau arlwyo yng Nghiosg Parc Victoria, planhigfa ffrwythau a llysiau Fforestfach a'r Tîm Cynnal a Chadw sy'n cefnogi gwaith rheoli bywyd gwyllt a chynefinoedd amgylcheddol.

Cafodd enghreifftiau o waith rhagorol eu cyflwyno gan aelodau'r gweithgor lles ar draws y 6 maen prawf a oedd yn cynnwys cludiant, caffael, cynaladwyedd, adeiladau corfforaethol a gwasanaethau eiddo, cyfleusterau, cyfranogiad cymunedol, cyflogaeth a sgiliau, gan arwain i gydnabyddiaeth o'n rôl arweiniol a blaengar.

Llongyfarchodd yr Aelod Llywyddol Wasanaeth Iechyd, Diogelwch, Lles a Rheoli Argyfwng Corfforaethol a fu'n arwain y cais am wobr, a phob aelod o staff arall y mae ei gyfraniad yn gwneud gwahaniaeth yn ein cymunedau bob dydd.

Cyflwynwyd y wobr i Craig Gimblett, Sue Reed, Katja Davies, Tracey Williams, Sarah Owens a Steve Rees .

**5) Prentis y Flwyddyn Coleg Gŵyr Abertawe**

Llongyfarchodd yr Aelod Llywyddol Lyn Hovvels, prentis plymer gyda'r Gwasanaethau Adeiladau Corfforaethol, a enillodd y wobr Prentis y Flwyddyn Coleg Gŵyr Abertawe. Dywedodd fod hyn yn llwyddiant arbennig i Lyn a'r Gwasanaethau Adeiladau Corfforaethol oherwydd dyma'r tro cyntaf i un o brentisiaid yr awdurdod ennill y wobr. Cafodd Lyn ei ddewis o blith y cannoedd o brentisiaid a fynychodd Coleg Gŵyr fel y gorau o'u plith, ac i'r rheini ohonoch sy'n adnabod Lyn yn bersonol, rydw i'n siŵr y byddwch i gyd yn cytuno nid oes yr un prentis arall sy'n ei haeddu'n fwy. Da iawn Lyn, a dal ati.

Cyflwynwyd y wobr i Lyn Hovvels.

**6) Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines 2017**

Dinasyddion Abertawe a/neu bobl â chysylltiadau ag Abertawe a dderbyniodd gwobrau yn Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines.

**a) Cadlywydd Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (CBE)**

i) Peter Malcolm Black. Cynghorydd ward Cwmbwrla, Cyngor Dinas a Sir Abertawe. Am wasanaethau i wleidyddiaeth a bywyd cyhoeddus yng Nghymru. (Abertawe).

**b) Aelod Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (MBE)**

i) Ms Sally Jane Hyman. Cadeirydd Ymddiriedolwyr yr RSPCA. Cangen Llys Nini. Am wasanaethau i les anifeiliaid a'r amgylchedd. (Baglan, Castell-nedd Port Talbot).

**c) Medal yr Ymerodraeth Brydeinig (BEM)**

i) Capten David Cledlyn Jones. Am wasanaethau i berthnasoedd Eingl-Almaenaidd ac Addysg yr Ail Ryfel Byd. (Pennard, Abertawe);

ii) Mrs Ann Georgina Khoshbin. Am wasanaethau i Addysg. (Blackpill, Abertawe).

**7) Diwygiadau i Wŷs y Cyngor**

a) Eitem 10 "Lwfansau a Threuliau Cynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig 2016-2017".

Tudalen 74. Newid y cofnodion mewn perthynas â'r Cynghorydd Robert C Stewart fel a ganlyn:

i) Dylai'r golofn lwfans teithio fod yn “£2,541.55”.
ii) Dylai colofn y cyfanswm fod yn “£68,738.96”

b) Eitem 12 "Aelodaeth Pwyllgorau”. Dosbarthwyd fersiwn wedi'i diweddaru.

21. <u>CYHOEDDIADAU ARWEINYDD Y CYNGOR.</u>

**1) Aelodau Hyrwyddo**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor ei fod wedi penodi'r aelodau hyrwyddo ychwanegol canlynol:

a) Aelod hyrwyddo dros ddigartrefedd - y Cynghorydd M Sykes;
b) Aelod hyrwyddo dros blant sy'n derbyn gofal - y Cynghorydd C R Evans.

**2) Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod trafodaethau eisoes wedi cychwyn ynghylch sefydlu Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

**3) Sgwâr Digidol - Penodi Gweithredwr Arena**

Rhoddwyd diweddariad am benodi Gweithredwr Arena'r Sgwâr Digidol gan Arweinydd y Cyngor.

**4) Tonia Antoniazzi – AS Gŵyr**

Llongyfarchodd Arweinydd y Cyngor, Tonia Antoniazzi, ar gael ei hethol yn Aelod Seneddol Gŵyr yn ddiweddar.

**5) Tân yn Nhŵr Grenfell, Gogledd Kensington, Datganiad ar Lundain**

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor â thristwch mawr at y tân dinistriol yn Nhŵr Grenfell yn Llundain ar 14 Mehefin 2017. Galwodd ar yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Tai, Ynni ac Adeiladau i roi gwybodaeth friffio i'r cyngor.

Rhoddwyd addewidion gan Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Tai, Ynni ac Adeiladau i'r cyngor ynghylch yr 11 o dyrau fflatiau yn Abertawe, ac atebodd gwestiynau am eu diogelwch.

**Sylwer:**

1) Gofynnodd y Cynghorydd C L Philpott am ddiweddariad o ran pryd y byddai allweddi'r balconïau i fflatiau Clyne Court yn cael eu dychwelyd i'r preswylwyr.

2) Gofynnodd y Cynghorydd G D Walker am ganlyniadau'r ymarfer 'byw' diweddaf yr ymgymerwyd ag ef gan y Gwasanaeth Tân ar dyrau o fflatiau'r cyngor.

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Tai, Ynni ac Adeiladau y byddai ymatebion ysgrifenedig yn cael eu darparu.

## 22. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD.

Gofynnwyd sawl cwestiwn gan aelodau'r cyhoedd. Ymatebodd Aelod perthnasol y Cabinet yn briodol. Ni chafwyd cwestiynau a oedd yn gofyn am ymateb ysgrifenedig.

## 23. CYFLWYNIAD CYHOEDDUS -

Rhoddwyd cyflwyniad gan Sue Shannon-Jones am Symudiad Prifysgol y Drydedd Oes (U3A), sef sefydliad unigryw a chyffrous sy'n darparu cyfleoedd i gyfoethogi a thrawsnewid bywydau. Mae pobl sydd wedi ymddeol neu sydd wedi hanner-ymddeol yn gallu dod ynghyd i ddysgu gyda'i gilydd, nid ar gyfer ennill cymwysterau ond, yn hytrach, er pleser pur dysgu.

Mae aelodau'n rhannu eu sgiliau a'u profiad bywyd: mae dysgwyr yn addysgu ac mae'r addysgwyr yn dysgu, ac nid oed unrhyw wahaniaeth rhyngddynt. Cefnogir y symudiad U3A gan y sefydliad cenedlaethol, Ymddiriedolaeth Prifysgol y Drydedd Oes.

Rhoddwyd diolch am y cyflwyniad gan y cynghorydd R C Stewart, Arweinydd y Cyngor.

24. **ADNEWYDDU TAI'R SECTOR PREIFAT AC ADDASIADAU I'R ANABL: POLISI I DDARPARU CYMORTH 2012-2017**

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Tai, Ynni ac Adeiladau a oedd yn amlinellu newidiadau arfaethedig Adnewyddu Tai'r Sector Preifat ac Addasiadau i'r Anabl: Polisi i ddarparu cymorth 2012-2017 presennol, ac i gyhoeddi polisi newydd ar gyfer 2017-2022.

**PENDERFYNWYD:**

1) Cymeradwyo'r newidiadau i'r adroddiad a amlinellwyd a chyhoeddi polisi newydd ar gyfer 2017-2022.

25. **LWFANSAU A GWARIANT ARIAN CYNGHORWYR AC AELODAU CYFETHOLEDIG 2016-2017.**

Cyflwynwyd adroddiad gwybodaeth gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a oedd yn cyflwyno swm y lwfansau a'r treuliau a dalwyd i bob Cynghorydd ac Aelod Cyfetholedig yn ystod 2015-2016 dan y Cynllun Lwfansau Cynghorwyr.

**Nodiadau:** Tudalen 74. Newidiwyd y cofnodion mewn perthynas â'r Cynghorydd Robert C Stewart ar dudalen 74 fel a ganlyn:

i) Dylai'r golofn lwfans teithio fod yn “£2,541.55”.
ii) Dylai colofn y cyfanswm fod yn “£68,738.96”.

26. **CYFLWYNO TEITL YR HENADUR ANRHYDEDDUS.**

Cyflwynwyd adroddiad ar y cyd gan yr Aelod Llywyddol a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a'r Swyddog Monitro a oedd yn cytuno mewn egwyddor i roi teitl 'Henadur Anrhydeddus' i gyn-Gynghorwyr a nodir yn yr adroddiad, yn unol â meini prawf y cyngor.

**PENDERFYNWYD:**

1) Cytunodd y cyngor mewn egwyddor i roi teitl Henadur Anrhydeddus i gyn-Gynghorwyr R G (Bobby) Davies, John Newbury, Ioan M Richard, R June Stanton a Ceinwen Thomas i gydnabod eu gwasanaethau blaenllaw i Ddinas a Sir Abertawe a'i awdurdodau blaenorol.

2) Trefnir Cyfarfod Seremonïol y Cyngor am 3.00pm ar 24 Awst 2017 er mwyn rhoi'r teitl i'r cyn-gynghorwyr a enwir uchod.

27. **AELODAETH PWYLLGORAU.**

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes fod adroddiad diwygiedig wedi'i ddosbarthu.

Cyfeiriodd at yr adroddiad gan nodi bod Arweinydd y Cyngor hefyd wedi gwneud y newidiadau canlynol i gyrff allanol yr awdurdod:

1) **Panel Mabwysiadu**
Tynnu enw'r Cynghorydd J P Curtice.
Ychwanegu'r Cynghorydd C Richards.

2) **Grŵp Llywio EOTAS**
Ychwanegu'r Cynghorydd J A Raynor.

3) **Gwerinwyr Gŵyr**
Tynnu enw'r Cynghorydd K M Roberts.
Ychwanegu'r Cynghorydd A H Stevens.

4) **Coleg Gŵyr**
Tynnu enw'r Cynghorydd C Richards.
Ychwanegu'r Cynghorydd R V Smith.

5) **Cytundeb rhwng Awdurdodau ar gyfer Gwastraff Bwyd**
Tynnu enw'r Cynghorydd W G Lewis.
Ychwanegu'r Cynghorydd V M Evans.

6) **Bwrdd Rheoli UCD**
Ychwanegu'r Cynghorydd J A Raynor.

7) **Consortiwm Gwastraff Rhanbarthol De-orllewin Cymru**
Tynnu enw'r Cynghorydd W G Lewis.
Ychwanegu'r Cynghorydd V M Evans.

8) **Pwyllgor Rheoli Gwastraff Rhanbarthol De-orllewin Cymru**
Tynnu enw'r Cynghorydd W G Lewis.
Ychwanegu'r Cynghorydd V M Evans.

9) **Partneriaeth Adfywio Economaidd Abertawe**
Ychwanegu'r Cynghorydd D H Hopkins.

10) **Llys Prifysgol Abertawe**
Tynnu enw'r Cynghorydd S Pritchard.
Ychwanegu'r Cynghorydd R Francis-Davies.

11) **Pwll Cenedlaethol Cymru**
Tynnu enw'r Cynghorydd M B Lewis.
Ychwanegu'r Cynghorydd M C Child.

12) **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
Tynnu enw'r Cynghorydd J P Curtice.
Ychwanegu'r Cynghorydd J A Raynor.

13) **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin**

Tynnu'r Cynghorydd P Jones.

**PENDERFYNWYD** diwygio aelodaeth cyrff y cyngor a restrir isod fel a ganlyn:

1) **Pwyllgor Disgyblu Prif Swyddogion**
Ychwanegu'r Cynghorydd J A Hale.

2) **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**
Tynnu enw'r Cynghorydd J P Curtice.
Ychwanegu'r Cynghorydd M Durke.

3) **Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol**
Ychwanegu'r Cynghorydd B J Rowlands.

4) **Pwyllgor Cynllunio**
Tynnu enw'r Cynghorydd C Richards.
Ychwanegu'r Cynghorydd P B Smith.

5) **Pwyllgor Polisi a Datblygu 1 (Addysg a Sgiliau)**
Tynnu enwau'r Cynghorwyr M Durke, L S Gibbard, J A Hale, Y V Jardine, W G Lewis a B J Rowlands.
Ychwanegu'r Cynghorwyr M A Langstone, M B Lewis, C L Philpott, S Pritchard, K M Roberts, M Sykes a D W W Thomas.

6) **Pwyllgor Polisi a Datblygu 2 (Economi ac Isadeiledd)**
Tynnu enwau'r Cynghorwyr M Durke, Y V Jardine, M A Langstone, D Phillips, L J Tyler-Lloyd a T M White.
Ychwanegu'r Cynghorwyr P R Hood-Williams, J W Jones, P Jones, S M Jones, P M Matthews a W G Thomas.

7) **Pwyllgor Polisi a Datblygu 3 (Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol)**
Tynnu enwau'r Cynghorwyr J P Curtice, D W Helliwell, P M Matthews, H M Morris, C Richards, G Tanner a W G Thomas.
Ychwanegu'r Cynghorwyr C Anderson, M Durke, J A Hale, C A Holley, M B Lewis, B J Rowlands, A H Stevens a L J Tyler-Lloyd.

8) **Pwyllgor Polisi a Datblygu 4 (Diogelu)**
Tynnu enwau'r Cynghorwyr T J Hennegan, M B Lewis, R D Lewis, P M Matthews, S Pritchard a D W W Thomas.
Ychwanegu'r Cynghorwyr J C Curtice, P R Hood-Williams, Y V Jardine, L James, K M Roberts, M Sykes a G Tanner.

9) **Pwyllgor Polisi a Datblygu 5 (Lleihau Tlodi)**
Tynnu enwau'r Cynghorwyr C Anderson, P R Hood-Williams, M B Lewis, K M Roberts, B J Rowlands, M Sykes a T M White.
Ychwanegu'r Cynghorwyr P Downing, D W Helliwell, O G James, R D Lewis, D Phillips, C Richards, G Tanner a L G Thomas.

10) **Pwyllgor Safonau**
Ychwanegu'r Cynghorydd Cymuned P Crayford.

**11) Pwyllgor Trwyddedu Statudol**
Ychwanegu'r Cynghorydd B J Rowlands.

**12) Bwrdd Magu Plant Corfforaethol**
Tynnu enw'r Cynghorydd H M Morris.

**13) Gweithgor y Cyfansoddiad**
Ychwanegu'r Cynghorydd W Evans.

**14) Panel Llywodraethwyr yr ALI**
Tynnu enwau'r Cynghorwyr C R Evans a V M Evans.
Ychwanegu'r Cynghorwyr W G Lewis ac S Pritchard.

**15) Bwrdd Pensiwn Lleol**
Tynnu enw'r Cynghorydd M B Lewis.
Ychwanegu'r Cynghorydd T M White.

**16) Ymweliadau Rota'r Gwasanaethau Cymdeithasol**
Tynnu enw'r Cynghorydd C R Evans. Ychwanegu'r Cynghorydd W G Lewis.

**17) Fforwm Cyswllt Myfyrwyr**
Ychwanegu enwau'r Cynghorwyr R Francis-Davies, A S Lewis ac M Thomas.

**18) Panel Ymddiriedolwyr**
Tynnu enw'r Cynghorydd V M Evans. Ychwanegu'r Cynghorwyr W Lewis, A Pugh ac L R Jones.

28. **NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD.**

Cyflwynwyd adroddiad ar y cyd gan yr Aelod Llywyddol, Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a'r Swyddog Monitro a oedd yn ceisio diwygio er mwyn symleiddio, gwella a/neu ychwanegu at Gyfansoddiad y Cyngor mewn perthynas â'r meysydd canlynol:

1) Rhan 3 – Cyfrifoldeb Dros Swyddogaethau – Cylch Gorchwyl.

Yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 25 Mai 2017, cyfarfu'r pum Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi ac etholwyd Cadeirydd ac Is-Gadeirydd ar gyfer y pwyllgorau. Mae'r Cadeiryddion a'r Is-Gadeiryddion yn trosglwyddo i'r pwyllgorau a ail-enwyd.

**PENDERFYNWYD:**

1) Ail-enwi'r pum Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi fel a amlinellir isod:

| Enw gwreiddiol | Enw a gynigir | Cadeirydd (Cyng.) | Is-Gadeirydd (Cyng.) |
|---|---|---|---|
| PDChP 1 | PDChP Addysg a Sgiliau | R V Smith | F M Gordon |
| PDChP 2 | PDChP Economi ac Isadeiledd | V M Evans | N J Davies |

| | | | |
|---|---|---|---|
| PDChP 3 | PDChP Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol | E T Kirchner | C R Evans |
| PDChP 4 | PDChP Diogelu | C R Doyle | E J King |
| PDChP 5 | PDChP Lleihau Tlodi | P B Smith | A Pugh |

2) Amlinellir newidiadau i'r cylch gorchwyl yng Nghyfansoddiad y Cyngor isod, ynghyd ag unrhyw newidiadau i'w mabwysiadu o ganlyniad:

**Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi - Economi ac Isadeiledd**

1) Ysgogi datblygu polisïau economi ac isadeiledd corfforaethol y cyngor, i'w hystyried a'u mabwysiadu gan y Cabinet a/neu'r cyngor lle bo'n briodol.

**Sylwer:** Gall Pwyllgorau Datblygu a Chyflwyno Polisi gyfethol eraill i'r pwyllgor am bwnc penodol neu am dymor os yw'r pwyllgor yn ystyried y gall hynny ei helpu yn ei rôl.

**Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi - Addysg a Sgiliau**

1) Ysgogi datblygu polisïau addysg a sgiliau corfforaethol y cyngor, i'w hystyried a'u mabwysiadu gan y Cabinet a/neu'r cyngor lle bo'n briodol.

**Sylwer:** Gall Pwyllgorau Datblygu a Chyflwyno Polisi gyfethol eraill i'r pwyllgor am bwnc penodol neu am dymor os yw'r pwyllgor yn ystyried y gall hynny ei helpu yn ei rôl.

**Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi - Lleihau Tlodi**

1) Ysgogi datblygu polisïau lleihau tlodi corfforaethol y cyngor, i'w hystyried a'u mabwysiadu gan y Cabinet a/neu'r cyngor lle bo'n briodol.

**Sylwer:** Gall Pwyllgorau Datblygu a Chyflwyno Polisi gyfethol eraill i'r pwyllgor am bwnc penodol neu am dymor os yw'r pwyllgor yn ystyried y gall hynny ei helpu yn ei rôl.

**Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi - Diogelu**

1) Ysgogi datblygu polisïau diogelu corfforaethol y cyngor, i'w hystyried a'u mabwysiadu gan y Cabinet a/neu'r cyngor lle bo'n briodol.

**Sylwer:** Gall Pwyllgorau Datblygu a Chyflwyno Polisi gyfethol eraill i'r pwyllgor am bwnc penodol neu am dymor os yw'r pwyllgor yn ystyried y gall hynny ei helpu yn ei rôl.

**Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi - Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol**

1) Ysgogi datblygu polisïau trawsnewid a chyngor y dyfodol corfforaethol y cyngor, i'w hystyried a'u mabwysiadu gan y Cabinet a/neu'r cyngor lle bo'n briodol.

**Sylwer:** Gall Pwyllgorau Datblygu a Chyflwyno Polisi gyfethol eraill i'r pwyllgor am bwnc penodol neu am dymor os yw'r pwyllgor yn ystyried y gall hynny ei helpu yn ei rôl.

29. **ADDEWID CYNGHORWYR AR SAFONAU.**

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i ail-fabwysiadu'r Addewid Cynghorwyr ar Safonau.

Yn unol â Rheol 30 Gweithdrefn y Cyngor, "Pleidlais", gofynnwyd am bleidlais gofnodedig. Cofnodwyd y bleidlais ar y newid fel a ganlyn:

| **O blaid (53 o Gynghorwyr)** | | |
|---|---|---|
| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
| C Anderson | D H Hopkins | J A Raynor |
| J E Burtonshaw | O G James | C Richards |
| M C Child | V V Jardine | K M Roberts |
| S E Crouch | L R Jones | B J Rowlands |
| J.P. Curtice | P Jones | M Sherwood |
| N J Davies | E J King | P B Smith |
| P Downing | E T Kirchner | R V Smith |
| C R Doyle | M A Langstone | A H Stevens |
| C R Evans | A S Lewis | R C Stewart |
| V M Evans | M B Lewis | M Sykes |
| W Evans | W G Lewis | G. J. Tanner |
| S J Gallagher | C E Lloyd | D W W Thomas |
| L S Gibbard | P Lloyd | M. Thomas |
| F M Gordon | I E Mann | W G Thomas |
| J A Hale | P N May | L J Tyler-Lloyd |
| D W Helliwell | D Phillips | L V Walton |
| T J Hennegan | S Pritchard | T M White |
| B Hopkins | A Pugh | - |

| **Yn erbyn (2 Gynghorydd)** | | |
|---|---|---|
| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
| E. W. Fitzgerald | M H Jones | - |

| **Ymatal (8 Cynghorwyr)** | | |
|---|---|---|
| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
| P M Black | L James | D G Sullivan |
| A M Day | S M Jones | G D Walker |
| K M Griffiths | C L Philpott | - |

| **Wedi gadael y cyfarfod oherwydd datganiad o fudd personol (0 cynghorwyr)** | | |
|---|---|---|
| **Cynghorydd** | **Cynghorydd** | **Cynghorydd** |
| - | - | - |

O ganlyniad i'r bleidlais a gofnodwyd, mabwysiadwyd yr argymhellion gofnodedig:

**PENDERFYNWYD:**

1) Ail-fabwysiadu Addewid Cynghorwyr ar Safonau;

2) Ei bod hi'n ofynnol i bob Cynghorydd lofnodi'r "Addewid Cynghorwyr ar Safonau".

30. **DULL DATRYS ANGHYDFODAU LLEOL I GYNGHORWYR.**

Cyflwynwyd adroddiad ar y cyd gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a'r Swyddog Monitro a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i ail-fabwysiadu'r Dull Datrys Anghydfodau Lleol i Gynghorwyr.

**PENDERFYNWYD:**

1) Ail-fabwysiadu'r Dull Datrys Anghydfodau Lleol i Gynghorwyr fel yr amlinellwyd yn Atodiad A;

2) Y dylai cynghorwyr geisio datrys unrhyw gŵyn sydd ganddynt am Gynghorwyr eraill drwy'r broses gyfryngu fewnol lle bynnag y bo modd, cyn cyfeirio'r mater at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

31. **CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR.**

**1) 'Cwestiynau Atodol' Rhan A**

Cyflwynwyd saith (7) 'Cwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Roedd ymateb ysgrifenedig yn ofynnol ar gyfer y cwestiwn/cwestiynau atodol canlynol.

**Cwestiwn 3**

**a)** Gofynnod y Cynghorydd P N May:

*i) "Mae awtomeiddio'r system yn ddefnyddiol. Mae'n hanfodol lansio ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus cyn ei chyflwyno. Pryd bydd yn cael ei chyflwyno'n llawn? A ellid defnyddio'r Cerbyd Gofodi Sifil?"*

Nododd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Amgylcheddol y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

**Cwestiwn 4**

**b)** Y Cynghorydd P M Black:

ii) *"Mae'r DVLA yn caniatáu mynediad i'r cyhoedd i system cofrestru cerbydau ar-lein i wirio a yw cerbyd wedi'i drethu neu beidio. A fyddai modd cyflwyno system debyg yn achos Hawlenni Parcio Preswylwyr?"*

Nododd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Amgylcheddol y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

**2) ‘Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer' Rhan B**

Cyflwynwyd un (1) 'cwestiwn nad oedd angen cwestiynau atodol' Rhan B.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.55 pm

**CADEIRYDD**